Eich cartref – hawliau ac opsiynau

I rieni sy'n byw ar wahân

Cynhaliaeth Plant opsiynau

(h) Hawlfraint y Goron 2008

Dim ond canllaw ydy'r daflen yma ac nid yw'n cynnwys pob sefyllfa. Ni ddylid ei chymryd fel bod yn rhoi cyngor cyfreithiol. Rydym wedi gwneud ein gorau i geisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen yma yn gywir fel ym mis Ebrill 2010. Ond, nid yw'n cwmpasu popeth a gall fod yn anghywir mewn amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith. Gall eich sefyllfa chi ddibynnu yn union ar eich amgylchiadau penodol a dylech geisio cael mwy o wybodaeth arbenigol annibynnol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ariannol yn seiliedig ar y wybodaeth yn y daflen yma. Ceir rhestr o fudiadau eraill ar ddiwedd y daflen yma a gallai'r rhain gynnig cyngor mwy manwl i chi.

EMA-CL0003W - (06/2011)

ISBN 978-1-84947-714-7

Cynnwys

Y daflen yma 2

Sut gall y gwasanaeth Opsiynau Cynhaliaeth Plant eich helpu 3 4

Os ydych yn berchen ar eich cartref 5 6

Os ydych yn rhentu'r eich cartref 7 8

Os ydych yn rhannu'r defnydd o'ch cartref 9

Aros yn y cartref teuluol neu adael 10 11

Os ydych eisiau i'r rhiant arall adael 12

Os credwch y gallech orfod bod yn ddigartref 13 16

Trais yn y cartref 17 18

Beth yw eich opsiynau cartrefu? 19 21

Cymorth ariannol y gallech ei gael 22 27

Enghraifft o gynllun gwario 28 30

Mudiadau defnyddiol eraill: Manylion cyswllt 31 35

Ein taflenni eraill 36

Y daflen yma

Mae'r daflen yma yn rhoi gwybodaeth ddiduedd i chi am eich opsiynau a'ch hawliau fel rhiant.

Ar gyfer pwy mae'r daflen yma?

Mae'r daflen ar eich cyfer chi os ydych yn rhiant i blentyn a'ch bod wedi gwahanu neu'n ystyried gwahanu oddi wrth y rhiant arall. Bydd o help os ydych:

- yn gyfrifol am brif ofal dyddiol eich plentyn, neu
- yn byw ar wahân i'ch plentyn ac nid chi ydy'r prif ofalwr dyddiol.

Gallai'r daflen yma hefyd fod yn ddefnyddiol i chi os ydych yn warcheidwaid, perthynas neu unrhyw un arall sy'n bryderus am deulu sy'n byw ar wahân.

Sut gall y daflen yma eich helpu

Mae'r daflen yn rhoi gwybod i chi am:

- hawliau ac opsiynau cartrefu i rieni sy'n byw ar wahân neu sydd am wahanu
- ble i gael mwy o help os byddwch yn ddigartref
- pa help sydd ar gael gyda chostau tai
- ble i gael mwy o wybodaeth a chyngor.

Sut gall y gwasanaeth Opsiynau Cynhaliaeth Plant eich helpu

Mae Opsiynau Cynhaliaeth Plant yma i helpu gyda chwestiynau fel:

- Beth yw cynhaliaeth plant a sut gallaf ei drefnu?
- Sut allaf wybod beth sydd orau ar gyfer fi a'm mhlentyn?
- Sut gallaf sefydlu cytundeb teuluol?
- Ble gallaf gael help?

Gallwn roi gwybodaeth a chymorth cyfrinachol a diduedd i chi am ddim drwy ein llinell gymorth, ein gwefan a'n gwasanaeth wyneb yn wyneb.

Gallwn egluro beth yn union yw cynhaliaeth plant a pham mae'n bwysig.

Yna, gallwn eich helpu i wneud cytundeb (a gwneud iddo lwyddo).

Os oes gennych gytundeb yn barod ond nad yw'n gweithio, gallwn eich helpu i ystyried sut gallwch wneud i hyn lwyddo eto.

Help ychwanegol

Yn aml, rhaid i rieni sy'n byw ar wahân ddelio gyda phethau anodd ac ymarferol fel arian, gofal plant tra yn y gwaith, a theimlo'n ddig neu o dan straen.

Nid ydym yn arbenigwyr yn y meysydd yma, ond gallwn eich rhoi mewn cysylltiad gyda mudiadau allai eich helpu.

Cewch ein manylion cyswllt ar y dudalen nesaf.

Mae ein gwasanaeth yn cael ei gynnal gan y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant.

Cysylltwch gyda ni

Gallwch ffonio ein llinell wybodaeth rhadffôn* ar **0800 988 0988** a siarad gyda rhywun heddiw. Rydym ar agor o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 9am i 4pm ar ddydd Sadwrn. Gallwch ofyn am gael siarad yn Gymraeg.

Mae ein pobl wedi cael hyfforddiant arbennig er mwyn rhoi gwybodaeth a chymorth diduedd am gynhaliaeth plant. Mae ein gwasanaeth ar gael i unrhyw riant yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan yn **www.cmoptions.org**

Os ydych yn warcheidwad, perthynas neu ffrind, neu os oes gennych ddiddordeb proffesiynol mewn cael gwybod mwy am gynhaliaeth plant, efallai y gallwn eich helpu chithau hefyd.

* Mae galwadau i rifau ffôn 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Os ydych yn berchen ar eich cartref

Os ydych yn berchen ar eich cartref ac yn gwahanu oddi wrth y rhiant arall, efallai bydd angen i chi wneud trefniadau ar gyfer eich eiddo

Os ydych yn gydberchennog cyfartal gyda'r rhiant arall

Os ydych wedi gwahanu oddi wrth y rhiant arall, gallai'r ddau ohonoch fod â hawl i ddychwelyd i'r eiddo ar unrhyw bryd (oni bai fod yna orchymyn llys yn erbyn hyn). Er enghraifft, os ydych yn byw i ffwrdd o'ch eiddo, efallai bydd rhaid i chi ddychwelyd i gasglu eich eiddo arall.

Efallai y byddwch angen gwneud cytundeb am bwy fydd yn aros yn y cartref teuluol. Yn aml iawn gall cyfryngwr helpu gyda hyn. Ond os na allwch ddod i gytundeb, dylech gael cymorth cyfreithiol am beth yw'r opsiynau sydd gennych ac os gallwch ofyn i'r llys benderfynu ar eich rhan.

Os ydych yn ystyried gadael y cartref, dylech ystyried y pethau canlynol cyn penderfynu:

- Os oes hawl gennych i aros ond mae'r rhiant arall wedi eich rhwystro rhag mynd i mewn i'r cartref, efallai drwy newid y cloeon, gallwch wneud cais i'r llys am Orchymyn Meddiannu (yng Nghymru a Lloegr) neu Orchymyn Cau Allan (yn Yr Alban).
- Os ydych yn rhentu rhywle, neu'n aros gyda theulu neu ffrindiau, ni fyddwch yn cael eich ystyried fel bod yn ddigartref a gallai hyn olygu na allwch gael llety gan awdurdod lleol.
- Os gofynnir i chi adael eich cartref, bydd yn rhaid i'r cyngor lleol ystyried os gallant eich helpu.

Os ydych eisiau help cyfreithiol, ffoniwch y Llinell Gymorth Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4345**.

Os byddwch yn penderfynu gwerthu eich cartref a bod enwau'r ddau ohonoch ar y gweithredoedd eiddo, bydd angen rhannu'r derbyniadau (arian o'r gwerthiant) rhwng eich gilydd. Gall penderfynu sut i rannu'r arian fod yn gymhleth ac anodd. Gallwch ofyn i'r llys benderfynu ar eich rhan, ond mae hyn yn adran gymhleth iawn o'r gyfraith a gall ddatrys anghytundebau drwy'r llys fod yn anodd ac yn gostus. Dylech gael cyngor proffesiynol sy'n ystyried eich amgylchiadau chi cyn mynd i'r llys.

Os mai dim ond un rhiant sy'n berchen ar yr eiddo

Os ydych yn byw yng Nghymru neu Lloegr a'ch bod wedi priodi (neu mewn partneriaeth sifil), a dim ond enw un rhiant sydd ar y gweithredoedd eiddo, fel arfer bydd hawl gan y ddau ohonoch i barhau i fyw yn yr eiddo hyd nes cewch ysgariad, gwahaniad barnwrol neu ddiddymiad o'r bartneriaeth sifil. Ond gellir newid yr hawliau yma drwy orchymyn llys. Felly ni ddylech ddibynnu ar hyn - siaradwch gyda chyfreithiwr neu arbenigwr cartrefu os ydych yn ansicr o'ch hawliau.

Mae gan Yr Alban 'hawliau preswylio', sy'n galluogi'r rhiant nad yw'n berchen ar y cartref i aros neu ddychwelyd i'r eiddo. Gallent hefyd fyw yno am hyd at ddwy flynedd ar ôl i chi stopio byw gyda'ch gilydd, oni bai bod gorchymyn llys yn gwahardd hyn. Ni ellir gwerthu'r tŷ tra bydd y ddau riant yn byw yno, oni bai bod y ddau ohonynt yn cytuno i hynny neu fod un rhiant yn cael gorchymyn llys.

Os nad ydych yn briod neu nad ydych mewn partneriaeth sifil gyda'ch gilydd

Os ydych wedi helpu i dalu am y cartref, efallai na all y rhiant arall eich diarddel ohono nac ei werthu heb gael gorchymyn llys. Ond bydd yn rhaid i chi gael cyngor cyfreithiol arbenigol a bydd angen i chi roi cymaint o dystiolaeth â phosib i ategu'ch achos. Efallai na allwch aros os nad ydych wedi helpu i dalu am y cartref, hyd yn oed os mai chi yw prif ofalwr y plentyn o ddydd i ddydd. Dylech siarad gydag ymgynghorydd tai er mwyn cael gwybod eich hawliau a thrafod eich opsiynau.

Os ydych yn rhentu eich cartref

Mae rhieni sydd ar fin gwahanu ac sy'n rhentu eu cartref angen gwybod beth yw eu hawliau a'u hopsiynau.

Os yw'r denantiaeth mewn enwau ar y cyd

Os ydych wedi gwahanu oddi wrth y rhiant arall, bydd hawl gan y ddau ohonoch i fyw yno neu o leiaf i nôl eich eiddo, oni bai fod gorchymyn llys yn eich rhwystro rhag gwneud hynny. Os bydd yn anodd i chi fynd i mewn i'r cartref, gall y llys eich helpu i orfodi eich hawliau. Os oes gan un ohonoch Orchymyn Atal neu rywbeth tebyg yn eich erbyn, efallai na allwch fynd i mewn i'r cartref.

Os oedd y ddau riant yn gyfrifol am dalu'r rhent a bod un ohonoch yn gadael, yna bydd y person sydd ar ôl yn gorfod ei dalu i gyd.

Ond, os yw'n amhosib i'r ddau ohonoch fyw yn y cartref teuluol a rentir neu os na allwch gytuno ynglŷn â phwy sy'n cael aros yno, yna efallai y bydd yn rhaid i lys benderfynu. Y naill ffordd, dylech gael cyngor cyfreithiol.

Os yw'r deantiaeth ond mewn un enw

Os byddwch yn credu bod y rhiant arall am roi 'rhybudd i ymadael', a allai ddod â'ch tenantiaeth i ben, dylech gael cyngor cyfreithiol neu gyngor tai nawr.

Os mai chi yw'r rhiant sy'n brif ofalwr am y plentyn o ddydd i ddydd ac na wnaiff eich landlord preifat, cmdeithas tai neu gyngor lleol roi eich tenantiaeth yn eich enw chi yn unig, yna byddwch angen cael cyngor arbenigol i weld os gallai llys roi'r denantiaeth i chi.

Mae Shelter Cymru **0808 800 4444** yn rhoi cyngor a gwybodaeth am ddim am broblemau tai. Mae gan y gnolfan Cyngor Ar Bopeth ymgynghorwyr tai arbennig (edrychwch yn y llyfr ffôn) neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk**

Ffoniwch y Llinell Gymorth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4345** am fwy o wybodaeth.

Os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil

Yng Nghymru a Lloegr mae hawl gan y ddau ohonoch i aros yn yr eiddo neu i ddychwelyd iddo, a gall gorchymyn llys orfodi hyn. Os bydd y rhiant arall yn gadael heb ildio'r denantiaeth:

- chi fydd yn atebol am y rhent
- gallech fod yn gymwys i gael Budd-dal Tai
- gallai'r llys ddyfarnu'r denantiaeth i chi ar ôl i chi ysgaru neu ddiddymu eich partneriaeth sifil.

Yn Yr Alban, statws cyfreithiol eich perthynas (p'un ai ydych yn briod, mewn partneriaeth sifil neu yn byw gyda'ch gilydd) sy'n penderfynu beth sy'n digwydd, yn hytrach na'ch hwliau fel tenantiaid. Mae eich 'hawliau preswylio' yn rhoi'r hawl i chi aros neu ddychwelyd i'r eiddo hyd at ddwy flynedd wedi i chi stopio byw gyda'ch gilydd fel cwpl. Dylech ofyn i arbenigwr i gael gwybod eich hawliau.

Ffoniwch Cymdeithas Gyfreithiol Yr Alban ar **0131 226 7411** a thrafodwch gael cyfreithiwr.

Os nad ydych wedi priodi nac mewn partneriaeth sifil

Os nad yw'r denantiaeth yn eich enw chi a bod y rhiant arall yn rhoi 'rhybudd rhesymol' i chi adael, nid oes gennych unrhyw hawl cyfreithiol i aros. Mae hyn yn gymwys hyd yn oed os mai chi yw'r rhiant sy'n brif ofalwr dyddiol y plentyn. Ond os bydd llys yn penderfynu y dylech gael aros, yna bydd Gorchymyn Meddiannu yn rhoi'r hawl i chi aros. Dylech gael cyngor cyfreithiol arbenigol os ydych eisiau aros.

Os ydych yn rhannu'r defnydd o'ch cartref

Mae rhai rhieni yn parhau i fyw gyda'i gilydd ar ôl i'w perthynas ddod i ben. Er mwyn byw ar wahân yn yr un cartref, bydd angen i chi rannu'r tŷ rhwng y ddau ohonoch neu rannu'r lle mewn ffordd arall.

Efallai gall cyflafareddu eich helpu i gytuno ar sut i fyw yn yr un cartref. Dyma pryd mae unigolion hyfforddedig annibynnol (cyflafareddwr/cyfryngwr) yn eich helpu i ddod i gytundeb. Os na fydd hyn yn helpu, efallai mai cael cyngor cyfreithiol fydd eich unig opsiwn.

Ffoniwch y Llinell Gymorth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4345** am wybodaeth am sut i gael cyfreithiwr yn eich ardal chi ac os gallwch gael help gyda'r costau.

Er mwyn dod o hyd i gyfryngwr lleol a allai eich helpu chi a'r rhiant arall i ddod i gytundeb ar ôl gwahanu, gallwch gysylltu gyda'r Llinell Gymorth Cyflafareddu Teulu Cenedlaethol ar **0845 602 6627** neu Relationships Scotland yn **www.familymediationscotland.org.uk**

Aros yn y cartref teuluol neu adael

Os ydych yn meddwl am aros yn y cartref teuluol neu adael, a'ch bod eisiau bod yn brif ofalwr am y plentyn o ddydd i ddydd, dylech gael cyngor cyfreithiol cyn symud i unrhyw le arall heb y plentyn. Gallai gwahanu am amser estynedig effeithio ar benderfyniad gan y llys yn y dyfodol am drefniadau byw'r plentyn yn y tymor hir.

Cadw at eich taliadau rhent neu forgais

Os ydych wedi gwahanu oddi wrth y rhiant arall a bod eich costau yn debygol o gynyddu, dylech ystyried os gallwch gadw at eich taliadau rhent neu forgais. Os nad ydych yn sicr, dylech lunio cynllun gwario sydyn – mae enghraifft o gynllun gwario yng nghefn y daflen yma.

Pethau i'w hystyried os byddwch yn penderfynu cadw'r cartref teuluol a gwneud cynllun gwario:

- Gallech fod yn gymwys i gael budd-daliadau ychwanegol a chredydau treth ar gyfer costau byw eich plentyn. Ewch i'r adran 'cefnogaeth ariannol y gallech fod â hawl i gael' ar dudalen 22.
- Gallech fod yn gymwys i gael cynhaliaeth ar eich cyfer chi eich hun os ydych yn briod gyda'r rhiant arall ac y gallant fforddio i'w dalu. Dylech gael cyngor cyfreithiol cyn gwneud unrhyw gytundeb ffurfiol gyda'r rhiant arall.
- Ewch i'n gwefan yn **www.cmoptions.org** am fwy o wybodaeth am gynhaliaeth plant.

Nid yw rhannu tŷ yn ateb yn y tymor hir. Cyn hir neu hwyrach bydd rhaid i chi a'r rhiant arall benderfynu beth ddylai ddigwydd gyda'r tŷ. Os na fyddwch yn gallu cytuno rhwng eich gilydd, yna gall y llys wneud hynny ar eich rhan.

Ffoniwch y Llinell Gymorth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4345** neu Gymdeithas Gyfreithiol Yr Alban ar **0131 226 7411**.

A fydd byw ar wahân yn effeithio ar fy mudd-daliadau a chredydau treth?

Bydd. Os na fyddwch yn byw gyda'ch gilydd neu os bydd gennych 'gartref ar wahân', yna bydd yn rhaid i'r ddau ohonoch wneud cais ar wahân am fudd-daliadau neu gredydau treth (neu'r ddau). Golyga cartref ar wahân eich bod yn gwneud pethau bob dydd ar wahân, er enghraifft darparu neu fwyta prydau bwyd.

Yn gyffredinol, os mai chi yw'r rhiant sy'n brif ofalwr am y plentyn o ddydd i ddydd byddwch yn gwneud cais am eich budd-daliadau neu gredydau treth (neu'r ddau) fel 'rhiant unigol'. Bydd y rhiant arall yn gwneud cais eu hunain fel oedolyn sengl.

Os byddwch yn gwerthu eich cartref ac y bydd gennych fwy na £16,000, gallai hyn effeithio ar eich hawl i rai budd-daliadau. Ond, os ydych yn defnyddio'r arian i brynu tŷ arall, gellir anwybyddu'r arian am chwe mis ar gyfer dibenion hawlio budd-dal. Edrychwch yn ein taflen, *Arian a Chyllid*, am fwy o wybodaeth.

Os ydych eisiau i'r rhiant arall adael

Bydd yn well i bawb, yn cynnwys eich plentyn, os gallwch ddod i gytundeb ynglŷn â phwy fydd yn aros yn y cartref teuluol. Gallech allu cael help tuag at y gost o gyflafareddu a chyngor cyfreithiol os na allwch chi a'r rhiant arall ddod i gytundeb.

Os byddwch angen eich diogelu rhag cael eich cam-drin gan y rhiant arall, gallwch gael gorchymyn llys i'w 'diarddel' o'ch cartref (eu rhwystro rhag mynd iddo). Bydd hyn yn gymwys os ydych yn berchen ar yr eiddo neu beidio. Ond ni fydd gorchymyn llys yn parhau am byth ac yn y diwedd bydd angen i chi ddatrys pwy sy'n berchen ar yr eiddo.

Os nad ydych wedi priodi a bod y cartref yn eich enw chi yn unig, gallwch wneud cais i'r llys am orchymyn i ddiarddel y rhiant arall. Ni allwch wneud hyn os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil, oni bai eich bod yn dioddef o drais yn y cartref gan y person sydd angen ei ddiarddel.

Os credwch y gallech orfod bod yn ddigartref

Os credwch fod perygl i chi gael eich gwneud yn ddigartref, byddwch angen delio gyda hyn cyn gynted â phosib. Y peth pwysicaf i gofio yw bod dal gennych hawliau a dewisiadau.

Mae p'un a fydd rhaid i chi adael eich cartref presennol neu beidio yn dibynnu ar nifer o bethau, fel:

- os ydych yn berchennog neu'n denant
- pryd y symudoch i mewn
- os yw'ch landlord yn byw gyda chi.

Os byddwch angen cyngor neu gymorth, ffoniwch Shelter Cymru ar **0845 075 5005** (8am i hanner nos, bob dydd) neu cysylltwch gyda'r ganolfan Cyngor Ar Bopeth yn **www.citizensadvice.org.uk** neu ffoniwch y Llinell Gymorth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **08455 345 4345**.

Cysylltwch gyda chanolfan cymorth tai Shelter neu swyddfa Cyngor Ar Bopeth (CAB). Gallant eich helpu i osgoi bod yn ddigartref drwy:

- egluro pa hawliau sydd gennych i aros yn eich cartref
- trin a thrafod ar eich rhan gyda'ch landlord neu fenthyciwr
- helpu i wneud cais am fudd-daliadau i helpu i dalu'ch rhent neu forgais
- trin a thrafod i ddod i gytundeb gyda'ch landlord neu fenthyciwr ynglŷn â thalu unrhyw rent neu daliadau sy'n ddyledus gennych
- trefnu help proffesiynol i ddatrys anghytundeb yn y teulu neu'r cartref
- dod o hyd i rywle arall i chi fyw.

Cartref dros dro ac mewn argyfwng

Os ydych ar fin bod yn ddigartref a'ch bod angen llety dros dro, dylech gael cyngor gan asiantaethau cymorth tai neu eich canolfan Cyngor Ar Bopeth lleol. Byddant yn dweud wrthych beth y gallwch wneud cais amdano a sut i wneud hyn.

Fel arfer y cam cyntaf yw i chi ffonio eich awdurdod lleol a gofyn am gael siarad gyda'r gwasanaeth digartrefiaeth.

Os byddwch angen cysylltu gyda nhw gyda'r nos neu dros y penwythnos, byddant yn gallu rhoi rhif argyfwng i chi.

Os nad oes gennych unman arall i aros, yna dylent gynnig llety argyfwng i chi.

Os byddwch angen cyngor neu gymorth, ffoniwch Shelter Cymru ar **0845 075 5005** (8am i hanner nos, bob dydd) neu cysylltwch â'r ganolfan Cyngor Ar Bopeth yn **www.citizensadvice.org.uk** neu ffoniwch y Llinell Gymorth Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4345**.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol dderbyn cais am help gan unrhyw un sy'n ymddangos i fod yn ddigartref neu sy'n debygol ofod yn ddigartref o fewn 28 diwrnod.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i helpu pobl ddigartref, ond ni allant roi llety i bawb. Byddant angen gwneud ymholiadau i weld os ydych yn un o'r bobl hynny sy'n rhaid iddynt ddarparu llety ar eu cyfer.
Y pedwar cam o'r prawf yma yw:

1 Ydych chi'n gymwys i gael cymorth?

2 Ydych chi'n ddigartref, neu mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 28 diwrnod yng Nghymru a Lloegr neu 2 fis yn Yr Alban, yn ôl y gyfraith?

3 Oes gennych 'angen blaenoriaethol'?

4 Ydych yn 'ddigartref heb fwriad'?

Hefyd, bydd yr awdurdod lleol yn asesu os oes gennych gysylltiad lleol gyda'r ardal ai peidio, er enghraifft os oes gennych deulu yn yr ardal.

Dylai eich awdurdod lleol gychwyn ar eich cais digartrefiaeth cyn gynted â'u bod yn gwybod eich bod yn berson digartref. Os na fydd y cyngor yn gadael i chi wneud cais, gofynnwch am resymau ysgrifenedig.

Dylai swyddog digartrefiaeth neu ymgynghorydd tai gyfweld â chi ar yr un diwrnod, neu o leiaf y diwrnod gwaith nesaf os gwnewch eich cais ar ôl oriau'r swyddfa.

Ar ddiwedd y cyfweliad dylai fod yn glir i chi beth mae'r awdurdod lleol am ei wneud nesaf, a phwy fydd yn cysylltu gyda chi ac erbyn pryd.

Yna, yng Nghymru a Lloegr bydd yr awdurdod lleol yn gwneud ymholiadau i'w helpu i benderfynu pa ddyletswydd gyfreithiol sydd ganddynt tuag atoch. Dylai hyn fod o fewn 33 diwrnod gwaith, ond weithiau gall gymryd mwy o amser.

Yn Yr Alban, dylai'r awdurdod lleol roi penderfyniad i chi o fewn 28 niwrnod os ydych yn gymwys am lety parhaol. Yn y cyfamser, dylent gynnig llety dros dro 'addas'.

Os ydych yn feichiog, neu'n rhiant unigol gyda phlentyn dibynnol, a bod yr awdurdod lleol yn credu eich bod yn ddigartref ac yn gymwys i gael help, rhaid iddynt roi llety tymor byr i chi tra eu bod yn penderfynu p'un ai i gynnig cartref parhaol ai beidio.

Os ydych yn geisydd lloches a'ch bod yn gwneud cais (neu wedi gwneud cais) i'r Swyddfa Gartref i gael aros yn y wlad, bydd y Gwasanaeth Cenedlaethol Cefnogi Lloches yn gallu dweud wrthych am ba lety gallwch neu na allwch wneud cais amdano yn dibynnu ar eich statws. Ffoniwch nhw ar 0**845 602 1739**.

Os ydych wedi gadael eich cartref oherwydd problemau arian

Os mai dyma'r rheswm pam eich bod wedi gadael y cartref teuluol, yna bydd angen i chi ddangos nad eich bai chi yw hyn. Er enghraifft:

- Os ydych wedi gorfod gadael eich cartref am nad oeddech yn gallu cadw at eich taliadau morgais neu rent, bydd angen i chi ddangos eich bod yn gallu fforddio'r costau hyn pan wnaethoch y cytundeb morgais neu denantiaeth yn wreiddiol.
- Os ydych wedi colli'ch cartref oherwydd bod ôl-ddyledion costau tai wedi cronni, bydd angen i chi ddangos bod hyn wedi digwydd oherwydd amgylchiadau tu hwnt i'ch rheolaeth – er enghraifft, oherwydd bod eich perthynas wedi dod i ben neu eich bod wedi colli swydd.
- Os ydych wedi gorfod gwerthu eich cartref gan fod ôl-ddyledion morgais, bydd angen i chi ddangos y byddai'r eiddo wedi cael ei atafaelu petaech heb ei werthu

Gall fod yn anodd dangos na wnaethoch wneud eich hun yn ddigartref yn fwriadol, felly bob tro dylech geisio cael cyngor arbenigol annibynnol.

Mae Shelter Cymru **0845 075 5005** yn rhoi cyngor annibynnol am ddim. Mae gan y ganolfan Cyngor Ar Bopeth ymgynghorwyr tai arbennig – edrychwch yn y llyfr ffôn neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk**

All fy awdurdod lleol gynnig rhywle i mi fyw?

Mae hyn yn dibynnu yn bennaf os bydd y llety sydd ar gael ganddynt yn addas i chi a'ch plentyn. Byddant yn ystyried:

1 faint o rent y gallwch ei fforddio
2 pa lety sydd ar gael yn lleol
3 os yw'r maint iawn ar eich cyfer chi a'ch plentyn
4 ble mae'r llety
5 unrhyw broblemau iechyd – a fyddai rhywun yn cael trafferth i fynd i fyny grisiau er enghraifft?
6 os ydych chi a'ch plentyn mewn perygl o ddioddef aflonyddwch oherwydd eich tras

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi eu penderfyniad a rhesymau i chi yn ysgrifenedig.

Allaf i herio'r penderfyniad?

Cewch, gallwch apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol, o fewn 21 diwrnod o dderbyn y llythyr penderfyniad. Dylai'r llythyr egluro sut gallwch wneud hyn.

Os nad ydych yn hapus am ba mor addas yw'r llety sydd ar gael i chi, gallwch herio canlyniadau eu hadolygiad. Gallwch wneud hyn hyd yn oed os byddwch wedi derbyn beth sydd ar gael ac wedi symud i mewn.

Dylech gael cyngor arbenigol gan ymgynghorwr arbenigol cyn dechrau eich apêl;

Mae Shelter Cymru **0845 075 5005** yn rhoi cyngor annibynnol am ddim. Mae gan y Ganolfan Cyngor Ar Bopeth ymgynghorwyr tai arbennig – edrychwch yn y llyfr ffôn neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk**

Bydd gennych well cyfle o ennill eich apêl os ydych yn gwybod beth yw'r rheolau.

Trais yn y cartref

Os ydych wedi gadael eich cartref oherwydd trais gan y rhiant arall, efallai na fyddwch wedi cael amser i baratoi cyn gadael.

Bydd angen i chi wybod beth yw eich hawliau tai a'ch opsiynau gan y gallai fod yn berygl os bydd y person sy'n eich cam-drin yn gwybod ble rydych yn byw nawr.

1 Help gan awdurdod lleol

Os ydych yn dianc oherwydd trais yn y cartref, ni fyddwch yn cael eich trin fel eich bod yn 'ddigartref yn fwriadol'. Efallai y bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol roi llety argyfwng i chi.

Os ydych ofn aros yn yr un ardal, gofynnwch am help gan awdurdod lleol gwahanol.

Mae'n ddyletswydd ar y Gwasanaeth Cymdeithasol i helpu unrhyw blentyn sydd angen llety argyfwng, a gallant helpu'r teulu cyfan sy'n ddigartref.

2 Diogelwch eich eiddo

Os yw'r awdurdod lleol wedi derbyn eu dyletswydd i'ch cartrefu, gall hefyd wneud yn siŵr fod eich eiddo yn fwy diogel neu gallant roi eich pethau i'w storio. Efallai y byddant yn codi ffi arnoch am hyn, ond gallech fod yn gymwys i gael help gyda'r gost.

Gallech hefyd allu gwneud cais am orchymyn llys i ddiogelu'ch eiddo. Gall arbenigwr tai neu arbenigwr cyfreithiol eich helpu gyda hyn.

3 Help gyda chostau cyfreithiol

Gallech allu cael cyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol am ddim, os ydych yn gwneud cais am orchymyn llys yn erbyn eich partner. Ni fydd eu hincwm nhw yn cael ei ystyried wrth asesu os ydych yn gymwys i help cyfreithiol.

Os oes gennych unrhyw fater cyfreithiol i'w drafod, ffoniwch y Llinell Cyngor Cyfreithiol Cymunedol ar **0845 345 4345**.

Os ydych yn ferch sy'n dioddef o drais yn y cartref, ffoniwch y Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y cartref Cymru ar **0808 801 0800**.

Os ydych yn ddyn sy'n dioddef o drais yn y cartref, ffoniwch y Llinell Gymorth Dyn Cymru ar **0808 801 0321**.

4 Mudiadau arbenigol

Gallwch hefyd gysylltu gyda'r mudiadau a restrir yma:

- Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref Cymru, **0808 801 0800**.
- Lloegr – National Domestic Abuse Helpline, **0808 200 0247**
- Yr Alban – Scottish Domestic Abuse Helpline, **0800 027 1234**.
- Respect (help i ddynion sy'n dioddef), **0808 801 0327**.

Mae mathau eraill o help hefyd ar gael:

- Gall eich meddyg teulu eich cyfeirio chi a'ch plentyn at fudiadau lleol am gymorth emosiynol neu seicolegol.
- Ceir Uned Diogelwch Cymunedol ym mhob gorsaf heddlu.
- Gallai'ch awdurdod lleol fod a dyletswydd i roi llety argyfwng i chi.
- Mae gan y Gwasanaeth Cymdeithasol ddyletswydd i helpu unrhyw blentyn sydd angen llety argyfwng.
- Gall llys wneud gorchymyn i ddiarddel y person sy'n eich cam-drin o'ch cartref i'ch galluogi chi i ddychwelyd yno.

Beth yw eich opsiynau cartrefu?

Dyma rai o'r opsiynau sydd ar gael os ydych yn gwahanu ac yn ceisio symud allan o'r cartref teuluol. Yma ceir y mudiadau y gallwch gysylltu gyda nhw a'r camau ymarferol y gallwch eu cymryd.

Hosteli

Gall llety mewn hosteli amrywio o ystafell fawr wedi ei rhannu gydag eraill i ystafelloedd unigol. Mae rhai yn cynnig llety unigol i ferched beichiog neu i rieni â phlant.

Gwestai gwely a brecwast

Gall y rhain fod yn ddrud yn aml. Peidiwch â chael eich camarwain gan y gair 'gwesty'. Mae safonau yn amrywio, fel arfer nid oes unrhyw gyfleusterau ar gyfer coginio ac efallai na allwch aros yno yn ystod y dydd. Dylech sicrhau os ydynt yn derbyn plant neu bobl ar fudd-daliadau.

Llety byrhoedlog

Fel arfer bydd cydweithfeydd byrhoedlog yn cynnig llety dros dro i bobl sengl, digartref. Mai rhai yn derbyn teuluoedd gyda phlant. Cysylltwch â Shelter Cymru neu'r ymgynghorydd tai yn y ganolfan Cyngor Ar Bopeth (CAB) am fwy o wybodaeth.

Ffoniwch Shelter Cymru ar **0845 075 5005** neu cysylltwch â'r ganolfan Cyngor Ar Bopeth – edrychwch yn y llyfr ffôn neu ewch i **www.citizensadvice.org.uk**

Tai awdurdod lleol

Nid yw bob awdurdod lleol yn berchen ac yn rheoli eu tai eu hunain. Yn lle hynny byddant yn defnyddio cymdeithasau tai lleol. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol am fanylion am sut i wneud cais am dai awdurdod ac i gael gwybodaeth arall a allai fod o help i chi.

Mae gan yr awdurdod lleol yn Yr Alban 'gofrestr tai cyffredin'. Mae hyn yn rhestr aros ar y cyd ar gyfer tai gan yr awdurdod lleol, cymdeithasau tai lleol a chydweithfeydd tai.

Cymdeithasau tai

Byddwch yn talu llai o rent i gymdeithas tai na fyddech yn y sector preifat ac ni fydd angen blaendal arnoch. Ond mae'n debygol y byddwch yn talu mwy nag y byddech os ydych chi'n rhentu gan awdurdod lleol, ac yn aml bydd rhestr aros hir ganddynt.

Mae eich awdurdod lleol a Chartrefi Cymunedol Cymru yn cadw rhestrau o gymdeithasau tai yn ôl ardal. Gallwch gysylltu gyda nhw ar **029 2055 7400**.

Cydweithfeydd tai

Sefydliadau bychain yw'r rhain ble mae aelodau o'r grŵp yn rheoli ac weithiau yn berchen ar yr eiddo. Mae'n ddewis arall yn hytrach na phrynu neu rentu yn breifat, ond mae rhan fwyaf o'r llefydd wedi cael eu cymryd gan bobl mae'r awdurdod lleol yn eu rhoi ymlaen o'u rhestr aros. Os byddwch yn cael un o'r tai hyn bydd yn rhaid i chi helpu gyda chynnal dyddiol y gydweithfa.

I gael mwy o wybodaeth am sut i wneud cais ac i ble, ffoniwch Cartrefi Cymunedol Cymru ar **029 2055 7400.**

Landlordiaid preifat

Nid yw eiddo wedi ei rentu'n breifat wastad o well safon na mathau eraill o dai wedi eu rhentu. Er gallai prydles tymor byr fod yn addas i chi nawr, bydd gennych lai o hawliau. Gallai gwasanaeth tai eich awdurdod lleol roi rhestr i chi o asiantaethau rhentu a landlordiaid dibynadwy. Mae rhai awdurdodau yn asesu ac yn rhoi 'sgôr' i bob landlord er mwyn eich helpu i ddod o hyd i un derbyniol. Gallant hefyd eich helpu os ydych ar incwm isel, efallai drwy dalu eich rhent o flaen llaw.

Gallwch weithio allan faint o rent y gallwch ei fforddio drwy gwblhau cynllun gwario. Ceir enghraifft o gynllun gwario ar dudalen 28.

Prynu tŷ

Efallai byddwch eisiau prynu eich cartref eich hunan. Gwnewch yn siŵr eich bod wir yn gallu fforddio prynu drwy lenwi cynllun gwario, gan ddangos eich incwm newydd a'ch costau. Gallai'r canlyniadau eich synnu.

Cynlluniau prynu eiddo cost isel

Os yw'r eiddo a reolir gan asiantaethau gwerthu tai y tu hwnt i'ch cyrraedd, gallwch brynu tŷ am lai na fuasai'n costio ar y farchnad agored. Efallai fod eich awdurdod lleol neu gymdeithas tai yn cynnal cynllun prynu tai cost isel yn eich ardal.

Yng Nghymru, mae'r cynllun HomesWithinReach yn helpu prynwyr tro cyntaf sy'n gymwys. Y ddau brif gynllun yn Lloegr yw'r cynllun HomeBuy a phrynu eiddo cyfrannol.

Yn Yr Alban, fe gynigir Homestake gan gymdeithasau tai i helpu pobl ar incwm isel. Cysylltwch gyda'ch awdurdod lleol am fanylion.

Lloches

Fel arfer mae llefydd fel hyn ar gyfer merched a phlant sydd wedi dioddef o drais yn y cartref a bygythiadau o gael eu cam-drin ac angen lle diogel i aros am y tymor byr.

Dylai unrhyw un sy'n dioddef o drais yn y cartref ffonio Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y cartref Cymru ar **0808 801 0800**.

Cymorth ariannol y gallech ei gael

Os ydych yn byw ar wahân i'r rhiant arall, gallech fod yn gymwys i gael help tuag at eich costau tai neu fathau eraill o help ariannol.

Help gyda blaendaliadau a rhent o flaen llaw

Os ydych yn symud i mewn i lety preifat byddwch fel arfer angen talu blaendal ynghyd â rhywfaint o rent ymlaen llaw hefyd.

Gallai adran tai eich awdurdod lleol eich helpu gyda'r taliadau hyn. Gallai eich Canolfan Cymorth Tai neu ganolfan Cyngor Ar Bopeth lleol eich rhoi mewn cysylltiad gydag unrhyw elusennau lleol allai helpu.

Help gyda chyfraddau llog morgais a chostau tai eraill

Os ydych yn berchen ar gartref a'ch bod yn gymwys i gael Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, yna gallech fod yn gymwys i gael arian i'ch helpu i dalu llog ar eich morgais ac unrhyw fenthyciadau rydych wedi eu cymryd er mwyn talu am welliannau ac ati. Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda'ch Canolfan Byd Gwaith lleol.

Help arall

Os ydych ar incwm isel neu fudd-daliadau, gallech fod yn gymwys i gael:

- Grant Gofal Cymunedol
- Grant Cyllido
- Benthyciad Argyfwng.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda'r Gronfa Gymdeithasol yn eich Canolfan Byd Gwaith lleol.

Gallech hefyd fod yn gymwys i gael grant tuag at adnewyddu neu wella cartref. Cysylltwch gyda'ch adran tai awdurdod lleol am fwy o wybodaeth am grantiau adnewyddu neu wella a grantiau cyfleusterau i'r anabl.

Mae'r adran yma yn gywir hyd eithaf ein gwybodaeth. Ond, mae'r rheolau yn gallu newid a dylech gysylltu gyda'r corff perthnasol am fanylion diweddaraf y budd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w cael.

Budd-dal	Pwy sy'n gymwys?	Ble i gael help a gwybodaeth
Budd-dal Plant	Gallech fod yn gymwys os ydych yn gyfrifol am blentyn a bod eich plentyn: • o dan 16, neu • yn 16 neu 17, wedi gadael addysg neu hyfforddiant sy'n gymwys at bwrpas Budd-dal Plant ac wedi cofrestru i weithio, dysgu neu hyfforddi gyda chorff cymeradwy (manylion ar y wefan) neu • O dan 20 ac mewn addysg neu hyfforddiant sy'n gymwys at bwrpas Budd-dal Plant.	Cyllid a Thollau EM Ffôn **0845 302 1400** Ffôn testun **0845 302 1474** 8am i 8pm,7 diwrnod yr wythnos **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**
Credyd Treth Gwaith	Gallech fod yn gymwys os ydych yn 16 neu'n hŷn ac: • Yn gweithio 16 awr neu fwy'r wythnos ac - rydych un ai yn gyfrifol am blentyn neu - mae gennych anabledd; neu • Yn gweithio 30 awr neu fwy'r wythnos ac rydych yn 25 neu'n hŷn. Fel rhan o'r Credyd treth gwaith gallech fod yn gymwys i gael help tuag at gostau gofal plant cofrestredig neu gymeradwy.	Cyllid a Thollau EM Ffôn **0845 300 3900** Ffôn testun **0845 300 3909** 8am i 8pm,7 diwrnod yr wythnos **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**

Budd-dal	Pwy sy'n gymwys?	Ble i gael help a gwybodaeth
Credyd Treth Plant	Gallech fod yn gymwys os ydych yn gyfrifol am blentyn a bod eich plentyn: • O dan 16, neu • Yn 16 neu 17, wedi gadael addysg neu hyfforddiant sy'n gymwys at bwrpas Budd-dal Plant ac wedi cofrestru i weithio, dysgu neu hyfforddi gyda chorff cymeradwy (manylion ar y wefan) neu • O dan 20 ac mewn addysg neu hyfforddiant sy'n gymwys at bwrpas Budd-dal Plant. Mae'n dibynnu ar eich enillion a'ch amgylchiadau os byddwch yn gymwys neu beidio.	Cyllid a Thollau EM Ffôn **0845 300 3900** Ffôn testun **0845 300 3909** 8am i 8pm,7 diwrnod yr wythnos **www.hmrc.gov.uk/cymraeg**
Cymhorthdal Incwm	Os ydych yn rhiant unigol sy'n gofalu am blentyn, gallech fod yn gymwys i gael Cymhorthdal Incwm os yw'ch plentyn ieuengaf o dan 7.	Y Ganolfan Byd Gwaith Ffôn **0800 055 6688** Ffôn testun **0800 023 4888** 8am i 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener **www.direct.gov.uk**
Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm	Os ydych yn ddi-waith neu'n gweithio llai na 16 awr yr wythnos ac yn chwilio am waith llawn amser.	Y Ganolfan Byd Gwaith Ffôn **0800 055 6688** Ffôn testun **0800 023 4888** 8am i 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener **www.direct.gov.uk**

Budd-dal	Pwy sy'n gymwys?	Ble i gael help a gwybodaeth
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth	Os nad ydych yn gweithio oherwydd salwch neu anabledd (ar gyfer cwsmeriaid newydd yn unig o 27 Hydref 2008 ymlaen)	Y Ganolfan Byd Gwaith Ffôn **0800 055 6688** Ffôn testun **0800 023 4888** 8am i 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener **www.direct.gov.uk**
Cinio ysgol am ddim	Gallech fod yn gymwys os ydych yn hawlio Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, neu • Os yw'ch incwm blynyddol gros yn llai na £14,155, neu • Os ydych yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos	Cysylltwch gyda'ch awdurdod addysg leol.
Triniaeth gan ddeintydd a phrofion llygaid am ddim	Gallech fod yn gymwys: • os ydych yn hawlio Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar incwm, neu • os ydych yn feichiog, neu • os ydych wedi rhoi genedigaeth yn y 12 mis diwethaf, neu • os ydych o dan 16, neu o dan 19 ac mewn addysg llawn amser.	Gofynnwch i'ch deintydd neu optegydd am driniaeth ddeintyddol neu brofion llygaid am ddim.

Budd-dal	Pwy sy'n gymwys?	Ble i gael help a gwybodaeth
Budd-dal Tai	Gallech fod yn gymwys os ydych: • Yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm. Os felly, byddwch yn cael y swm uchaf o Fudd-dal Tai sydd ar gael (os nad oes oedolion annibynnol eraill yn byw yn eich cartref), neu • Ar incwm isel ac nad oes gennych fwy na £16,000 o gynilion neu asedau eraill (gallwch gael help tuag at eich rhent hyd yn oed os ydych mewn gwaith).	• Edrychwch ar y ffurflen gais sydd yn eich pecyn cais am Gymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Efallai bydd eich cyngor lleol yn anfon ffurflen arall atoch i'w chwblhau. • Cysylltwch gyda'r adran budd-daliadau yn eich cyngor lleol (mae'r rhif yn eich llyfr ffôn lleol.)

Budd-dal	Pwy sy'n gymwys?	Ble i gael help a gwybodaeth
Budd-dal Treth Cyngor	Gallech fod yn gymwys os ydych: • yn cael Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm, neu • ar incwm isel ac nad oes gennych fwy na £16,000 o gynilion neu asedau erial (gallwch gael help tuag at eich Treth Cyngor hyd yn oed os ydych mewn gwaith), neu • yn berson sengl – byddwch yn gymwys yn awtomatig i gael gostyngiad o 25% i'ch Treth Cyngor os mai chi yw'r unig oedolyn yn eich cartref.	• Bydd ffurflen gais yn eich pecyn cais am Gymhorthdal incwm, Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Efallai bydd eich cyngor lleol yn anfon ffurflen arall atoch i'w chwblhau. • Cysylltwch gyda'r adran budd-daliadau yn eich cyngor lleol (mae'r rhif yn eich llyfr ffôn lleol).

Enghraifft o gynllun gwario

Bydd y rhestr wirio gyferbyn yn eich helpu i greu cyllideb sy'n briodol i'ch amgylchiadau.

Mae'r eitemau yn y cynllun gwario yn enghreifftiau o gostau byw cyffredin. Efallai bydd rhaid i chi ychwanegu pethau eraill rydych yn gwario arian arnynt yn rheolaidd.

Os ydych wedi rhestru eich incwm fel ffigwr misol, dylai eich treuliau a chostau gael eu rhestru fel eitemau misol hefyd. Os yw eich costau yn fwy na'ch incwm, dylech feddwl am sut i wario llai o arian neu gynyddu eich incwm (neu'r ddau).

Incwm	£
Prif gyflog gan gynnwys goramser (ar ôl treth)	
Cymhorthdal Incwm/Lwfans Ceisio Gwaith	
Credyd Treth	
Budd-dal Plant	
Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor	
Budd-daliadau eraill	
Cynhaliaeth Plant	
Llog neu unrhyw incwm o fuddsoddiad (er enghraifft, o gynilion neu gyfranddaliadau ac ati)	
Cyfraniadau gan oedolyn arall sy'n byw gyda chi (er enghraifft plentyn hŷn sy'n gweithio)	
Incwm arall	
Cyfanswm incwm (A)	

Treuliau	
Morgais (gan gynnwys unrhyw bolisi gwaddol, ail forgais neu fenthyciad wedi ei ddiogelu)	
Rhent	
Treth Cyngor	
Trydan	
Nwy	
Treth d^wr	
Cynhaliaeth plant	
Ffôn, ffôn symudol, y we	
Trwydded teledu	
Teledu a rhentu arall	
Gofal plant (er enghraifft, gwarchodwr plant, meithrinfa, clybiau ar ôl ysgol a chynlluniau gwyliau)	
Treth car	
Yswiriant car	
MOT car	
Trwsio car	

Treuliau - parhad	£
Costau teithio	
Yswiriant cartref a chynnwys	
Yswiriant Bywyd	
Taliadau hurbrynu	
Taliadau pensiwn	
Bwyd	
Prydau ysgol/prydau yn y gwaith	
Dillad ac esgidiau	
Adloniant – DVD, cylchgronau, tafarn, sinema	
Fferyllydd a phresgripsiynau	
Arian poced plant	
Adnewyddu ac addurno'r cartref	
Anrhegion pen-blwydd	
Treuliau Nadolig	
Gwyliau	
Adnewyddu teclynnau yn y cartref	
Deintydd	
Arall 1	
Arall 2	
Arall 3	
Cyfanswm treuliau (B)	
Balans (incwm (A) llai treuliau (B)	

Mudiadau defnyddiol eraill: Manylion cyswllt

Cynhaliaeth plant

Asiantaeth Cynnal Plant (CSA)
Ffoniwch y Llinell Gymorth Cymraeg ar **08457 138 091** (9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
Ffôn testun **08457138 099**
www.asiantaethcynnalplant.gov.uk

Trais yn y cartref a chamdriniaeth

Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref Cymru
Llinell gymorth am ddim sy'n cynnig gwasanaeth gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol i unrhyw un sy'n dioddef cam-drin yn y cartref neu sydd am gael mwy o wybodaeth am wasanaethau cefnogi sydd ar gael. Mae ar agor 24 awr.
Ffôn: **0808 80 10 800** (Ar agor ac am ddim 24 awr y dydd, bod dydd)
www.welshwomensaid.org

Mae'r cyrff defnyddiol a restrir yn yr adran hon yn gweithredu yng Nghymru. Ceir rhestr o gyrff tebyg sy'n gweithredu yn Lloegr yn y fersiwn Saesneg o'r daflen hon, ffoniwch ***0800 988 0988*** *i gael copi.*

Cymorth gyda materion gwaith ac arian

Y Ganolfan Byd Gwaith
Ffôn **0800 012 1888**
(8am i 6pm o dydd Llun i ddydd Gwener)
Ffôn testun **0800 023 4888**
www.direct.gov.uk

Gyrfa Cymru
Gwasanaeth gwybodaeth am yrfaoedd i bobl o bob oed yng Nghymru.
Ffôn **0800 100 900**
www.careerswales.com

Cyllid a Thollau EM
Gwybodaeth am gredydau treth.
Ffôn **0845 302 148**9
(8.30 am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
Ffôn testun **0845 300 3909**
www.hmrc.gov.uk/cymraeg

National Debtline
Ymgynghorwyr arbenigol sy'n cynnig cyngor cyfrinachol am ddim a chymorth i ddelio gyda dyled bersonol.
Ffôn **0808 808 4000**
(9am i 9pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9.30 am i 1pm ar ddydd Sadwrn, gyda gwasanaeth gadael neges 24 awr)
www.nationaldebtline.co.uk

Gwybodaeth gyffredinol

www.direct.gov.uk
Gwefan y Llywodraeth gyda gwybodaeth am bynciau fel magu plant, arian, budd-daliadau a'ch hawliau.

Cyngor Ar Bopeth (CAB)
Gwybodaeth am ddim a chyngor am bynciau amrywiol fel y gyfraith, cartrefi a dyled. I ddod o hyd i'ch swyddfa CAB leol edrychwch yn y llyfr ffôn neu defnyddiwch y wefan i ddod o hyd i'r agosaf.
www.citizensadvice.org.uk

Galw Iechyd Cymru
Gwybodaeth a chyngor am iechyd, salwch a gwasanaethau iechyd.
Ffôn **0845 4647**
(24 awr y dydd, bob dydd)
www.nhsdirect.nhs.wales

Eich cartref

Shelter Cymru
Gwybodaeth a chyngor am ddim i unrhyw un gyda phroblemau tai.
Ffôn **0808 800 4444**
(09.30am i 4.30pm, ddydd Llun i ddydd Gwener)
www.shelter.org.uk

Cartrefi Cymunedol Cymru
Y corff aelodaeth ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru, pob un yn gweithredu heb elw ac yn cynnig tua 114,000 o gartrefi a gwasanaethau tai ledled Cymru.
Ffôn **029 2055 7400**
www.chcymru.org.uk

Rhieni sy'n byw ar wahân

Centre for Separated Families
Cyngor a chymorth i rieni ac i bobl eraill mewn teuluoedd sydd wedi gwahanu.
www.separatedfamilies.info

Families Need Fathers
Gwybodaeth i rieni ac maent yn cynnal cyfarfodydd cymorth agored yn lleol.
Ffôn **0300 0300 363**
(6pm i 10pm, ddydd Llun i ddydd Gwener)
www.fnf.org.uk

Gingerbread
Cyngor a chymorth ymarferol i rieni unigol. Mae cynghorwyr arbenigol yn ateb y llinell gymorth, ceir digonedd o wybodaeth ar y wefan ac mae hyfforddiant ar gael hefyd. Maent hefyd yn ymgyrchu i wella bywyd ar gyfer bob teulu un rhiant. Gan fod Gingerbread yn elusen genedlaethol, mae'r cyfan am ddim.
Llinell Gymorth Rhieni Unigol – ffoniwch **0808 802 0925** am ddim
(Dydd Llun – 10am i 6pm, Dydd Mawrth/Iau/Gwener – 10am i 4pm a dydd Mercher – 10 am i 1pm a 5pm i 7pm)
www.gingerbread.org.uk

Family Lives
Cyngor a chymorth i unrhyw un sy'n gweithredu fel rhiant, gan gynnwys llys-rieni a neiniau a theidiau.
Ffôn **0808 800 222**
(cyfrinachol ac am ddim, 24 awr y dydd, bob dydd)
www.familylives.org.uk

Cyngor cyfreithiol

Cyngor Cyfreithiol Cymunedol
Gwasanaeth cyfreithiol am ddim yng Nghymru a Lloegr a ariennir gan y Llywodraeth sy'n cynnig cyngor am ddim i'r rhai hynny sy'n gymwys i gael Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.
Ffôn **0845 345 4345**
(9am i 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Codir o leiaf 4c y funud am alwadau)
www.legalservices.gov.uk/cymru/cyngor_cyfreithiol_cymunedol.asp

Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru
Gweithia CAFCASS Cymru gyda theuluoedd a gyfeirir atynt gan y llysoedd yng Nghymru a Lloegr. Maent yn helpu rhieni i ddod i gytundeb ynglŷn â threfniadau ar gyfer eu plant. Ceir gwybodaeth ddefnyddiol ar eu gwefan yn ogystal ag astudiaethau achos, cyngor a chysylltiadau eraill.
Ffôn **0300 062 5380**
www.wales.gov.uk/cafcasscymru

Resolution
Cyfreithwyr teulu sy'n canolbwyntio ar anghydfodau teuluol.
Ffôn **01689 820272**
(9am i 5.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener)
www.resolution.org.uk

Cyflafareddu (Mediation)

National Family Mediation
Rhwydwaith o wasanaethau cyflafareddu teuluol ledled Cymru a Lloegr sydd ddim yn gwneud elw. Maent yn cynnig help i gyplau sydd wedi neu heb briodi, ac sydd yn y broses o wahanu neu ysgaru.
Ffôn **0300 4000 636** (9am i 5pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener)
www.nfm.org.uk

Relate Cymru
Yn cynnig cyngor, cwnsela perthynas, cyflafareddu a chymorth wyneb yn wyneb, dros y ffôn ac ar eu gwefan. Gallai bod ffi am y gwasanaeth yma.
Ffôn **0300 100 1234**
www.relatecymru.org.uk

Ein taflenni eraill

Gallwch archebu ein taflenni am ddim drwy ffonio **0800 958 0988**. O dan bob taflen isod, ceir disgrifiad byr o beth i ofyn amdano pan fyddwch yn ffonio. Gallwch hefyd eu lawr-lwytho o'n gwefan yn **www.cmoptions.org**

Help i wneud dewisiadau am gynhaliaeth plant:

Cynhaliaeth plant - ble i ddechrau

Ffurflen cytundeb teuluol

Y gwasanaeth Opsiynau Cynhaliaeth Plant:

Sut i wneud cwyn amdanom ni

Sut rydym yn trin eich gwybodaeth

Gwybodaeth ymarferol am y materion a wynebir wrth fagu plant ar wahân:

Eich hawliau cyfreithiol a'ch cyfrifoldebau

Eich lles chi a lles eich plentyn

Eich cartref - Hawliau ac opsiynau

Arian a chyllid

Hawliau a chyfleoedd gwaith

Gwybodaeth ddiduedd a chymorth i bob rhiant allu gwneud penderfyniadau am gynhaliaeth plant

Cysylltwch gyda ni
Rhadffôn* **0800 988 0988**
8am - 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener
9am - 4pm ar ddydd Sadwrn
www.cmoptions.org

Mae'r daflen yma hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn print bras, mewn Braille ac ar dâp sain.
Gallwch gael y rhain drwy ein ffonio ar radffôn* **0800 988 0988**

Ein rhif TexBox a'n rhif ffôn testun yw
0800 988 9 888

* Mae galwadau ffôn i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond gallech orfod talu os byddwch yn defnyddio cwmni arall, ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau ffôn i rifau 0845 o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud gyda thâl o 6c am sefydlu r alwad. Gallech orfod talu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau ffôn i rifau 0870 o linellau daear BT gostio mwy na 8c y funud gyda thâl o 6c am sefydlu r alwad. Gallech orfod talu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffôn symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i ch darparwyr gwasanaeth faint yw costau galwadau.

EMA CL0003W (06/2011)

ISBN 978 1 84947 714 7